# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Greenfield Dental Care/ Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 16 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-210-9



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ..... 6

3. Yr hyn a ganfuom ..... 7

Ansawdd profiad y claf ..... 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..... 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..... 18

4. Beth nesaf? ..... 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..... 22

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... 23

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ..... 24

Atodiad C – Cynllun gwella ..... 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn Greenfield Dental Care yn 60 Greenfield Avenue, Dinas Powys, CF64 4BX, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 16 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Safonau Gofal ac Iechyd (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Greenfield Dental Care yn bodloni'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch; bod gan y practis brosesau priodol ar gyfer sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio, a bod gan y practis amrediad o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd cofnodion cleifion yn drylwyr ar y cyfan ac wedi'u cofnodi'n dda
- Arddangoswyd proses drwyadl gan y staff ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch y staff a'r cleifion
- Dywedodd y staff wrthym y teimlent fod uwch-aelodau o staff y practis a'r tîm ehangach yn eu cefnogi.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal gwiriadau mwy rheolaidd o'r cyffuriau a'r offer brys
- Y broses ar gyfer diweddaru a chofnodi hanesion meddygol cleifion yn ystod pob ymweliad.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Greenfield Dental Care yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Dinas Powys yn ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, dau therapydd, pedair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd, ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol GIG a phreifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y tîm cyfan yn trin y cleifion gydag urddas, parch a charedigrwydd. Roedd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis. Gwelsom fod y practis yn cyflenwi gofal a thriniaeth mewn ffordd a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Cwblhawyd cyfanswm o 18 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'n ymddangos bod y practis hwn yn mwynhau bod ar y blaen mewn perthynas â thriniaethau a thechnegau cyfredol"*
>
> *"Mae'r staff bob amser yn broffesiynol iawn ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.Rhagorol"*
>
> *Mae'r practis yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel....mae'r staff bob amser yn gefnogol ac yn dangos parch....Mae'r deintyddion yn gymwys iawn ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau a thechnoleg ac ati."*
>
> "Ar gyfer claf nerfus, dyma'r practis gorau yng Nghymru. Maen nhw'n darparu gwasanaeth cynhwysfawr, bob amser yn esbonio opsiynau yn llawn a byth yn eich brysio. Tosturiol a gofalgar. Os oes gennych chi boen ddeintyddol, maen nhw bob amser yn trefnu amser i chi - yn aml iawn ar yr un diwrnod"

### Cadw'n iach

Yn y practis, gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â hybu iechyd, er mwyn eu hannog i ofalu am iechyd eu ceg a'u hylendid.

Heb eithriad, gwnaeth pob un o’r cleifion a lenwodd holiadur ddweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut y gallent gadw eu ceg a’u dannedd mewn cyflwr iach.

## Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol. Roedd yn ymddangos bod y staff yn dîm bach, cyfeillgar, a gwelsom ryngweithiadau moesgar a chwrtais gyda'r cleifion. Yn ddieithriad, roedd pob claf yn cytuno eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwnaeth y practis gadarnhau y gallai cleifion gael trafodaeth breifat â’r tîm deintyddol, i ffwrdd o'r cleifion eraill. Roedd y polisi hwn hefyd yn cael ei hysbysebu'n glir i gleifion ar sgrin deledu a oedd wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa yn y practis.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu arlwy o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat a chostau am driniaethau deintyddol y GIG i'w gweld yn glir yn ardal y dderbynfa, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur eu bod yn cael eglurhad o’r gost bob amser cyn cael y driniaeth, ac roedd y mwyafrif yn cytuno eu bod yn deall sut roedd cost y driniaeth yn cael ei chyfrifo.

Dywedodd pob un o’r cleifion a lenwodd holiadur eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys i’r graddau a ddymunent mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg , yn bennaf y polisi cwynion a'r wybodaeth ynghylch prisiau'r driniaeth. Roedd y rhain wedi'u harddangos yn glir er mwyn i'r cleifion eu gweld yn ardal y dderbynfa.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses a ddefnyddir i roi gwybod i'r cleifion mewn da bryd am unrhyw oedi neu ohirio apwyntiadau. Roedd y practis hefyd yn darparu gwasanaeth neges destun i atgoffa cleifion am amser a dyddiad eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ar ddrws ffrynt y practis ac ar neges y peiriant ateb. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion a lenwodd yr holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod cofnodion manwl o'r cynlluniau triniaeth a'r opsiynau wedi'u nodi ar gyfer pob claf. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Sylwom fod y practis wedi mabwysiadu polisi penodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Golygai hynny fod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i'r un cyfleoedd ac i'r un driniaeth deg.

Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad dau lawr, gydag un ystafell driniaeth ar y llawr daear a dwy ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Roedd y ffaith bod un ystafell driniaeth ar y llawr daear yn golygu y gellir cynnig gwasanaethau deintyddol i gleifion ag anawsterau symudedd neu'r rheini sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd gan y practis hefyd gyfleusterau tŷ bach ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa yn y Gymraeg a'r Saesneg a hefyd wedi'i chynnwys ar wefan y practis. Dywedodd

y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i leisio cwyn am y gwasanaeth. Gwnaethom argymell bod y practis yn diweddaru ei weithdrefn gwyno i sicrhau bod amserlenni ar gyfer ymateb i gleifion y GIG yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella[1]. Cytunodd y practis i wneud y newid hwn.

Gwelsom fod y practis wedi derbyn tri chwyn yn ystod y deng mlynedd diwethaf, a chanfuom fod system addas ar waith i gofnodi a mynd i'r afael â chwynion ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Canfuom fod gan y practis broses sefydledig ar gyfer casglu adborth wrth gleifion ynghylch y gwasanaethau a'r gofal a dderbynnir drwy holiaduron cleifion. Gwelsom fod dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r arolwg yn cael eu hystyried a bod camau gweithredu priodol yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau wrthym y gofynnir iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol, er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

[1] Gweithdrefn gwyno GIG Cymru

http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd safle'r practis yn amlwg wedi ei gynnal mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol.

Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac wedi cael eu cynnal yn dda, ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio i hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Roedd angen cynnal gwiriadau mwy rheolaidd o'r cyffuriau a'r offer brys.

Gwnaethom argymell y dylid gwella'r broses ynghylch cofnodi hanesion meddygol y cleifion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Canfuom fod y practis wedi ei gynnal mewn cyflwr da iawn, tu mewn a thu allan, a bod y tair ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hwn wedi cael ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Gosodwyd offer didoli amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor lleol.

Roedd polisi iechyd a diogelwch wedi ei fabwysiadu. Gwelsom fod data a gwybodaeth briodol ar gael i staff ynglŷn â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a bod sylweddau COSHH yn cael eu storio’n ddiogel.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[2] Roedd bowlen ar wahân yn cael ei defnyddio ar gyfer ymolchi dwylo, er hyn nid oedd sinc benodol, barhaol, ar gyfer gwneud hyn. Gwelsom hefyd bod sinciau penodol ar gyfer ymolchi dwylo ar gael ym mhob un o'r tair ystafell driniaeth yn y practis.

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r lloriau yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

[2] Mae’r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis y defnydd o ddau beiriant awtoclaf[3] a pheiriant golchi dadheintio[4] a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfr cofnodion yn cael ei gadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Canfuom fod y practis wedi cynnal nifer o archwiliadau rheoli heintiau i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Lle roedd meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi gan y practis, gwelsom ei fod wedi cymryd camau i roi sylw i'r materion o dan sylw. Gwnaethom argymell bod y practis yn nodi dyddiad yr archwiliadau sydd wedi cael eu cwblhau i sicrhau bod staff sy'n rhoi sylw i unrhyw welliannau yn defnyddio'r wybodaeth archwilio ddiweddaraf. Cytunodd y practis i wneud hyn.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwymp). Er nad yw'n angenrheidiol ei gynnwys yn y pecyn argyfwng, gwnaethom ganfod fodd bynnag fod un darn o offer, sef y canwla, yn cynnwys dyddiad a oedd wedi dod i ben. Gwnaethom ddwyn hyn at sylw rheolwr y practis a pherchennog y practis ar ddiwrnod yr arolygiad a chafodd y darn o offer ei waredu a phrynwyd un newydd yn ei le ar unwaith. Gwnaethom ganfod bod angen cynnal gwiriadau mwy rheolaidd o'r cyffuriau a'r offer brys yn unol â'r safonau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU)[5]. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn adolygu cofnodion eu gwiriadau er mwyn sicrhau bod yr holl

---

[3] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau, drwy'u trin ag ager dirlawn ar bwysedd uchel.

[4] Mae peiriant golchi dadheintio yn ddull awtomatig ar gyfer glanhau offer deintyddol cyn iddynt gael eu sterileiddio.

[5] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

wybodaeth yn cael ei chofnodi. Cytunodd y practis i wneud hyn ac ar ddiwrnod yr arolygiad datblygwyd llyfr cofnodion mwy manwl o'r gwiriadau ar y cyffuriau a'r offer brys.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau mwy rheolaidd yn cael eu cwblhau ar y cyffuriau a'r offer brys yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r (DU)

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn cadarnhau bod staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion. Gwnaethom argymell bod y practis yn diweddaru'r weithdrefn diogelu oedolion i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu yn y cyngor lleol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisi ar gyfer diogelu oedolion i gynnwys manylion priodol ar gyfer tîm diogelu'r cyngor lleol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y deintyddion wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol ynghylch rheoli haint, rhagnodi meddyginiaeth wrthficrobaidd, cadw cofnodion cleifion, gwiriadau peyldr-X a'r ystafell driniaeth, er mwyn helpu i adnabod meysydd i'w gwella a gwiriadau ar rywfaint o offer er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol. Lle roedd archwiliad a gwblhawyd wedi nodi meysydd ar gyfer gwelliannau, gwelsom fod y practis wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Rhoddwyd sicrwydd inni fod amrediad o archwiliadau yn cael eu cynnal yn y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedodd y practis wrthym fel grŵp o dri chlinigwr deintyddol eu bod yn cynnal adolygiadau a thrafodaethau rheolaidd. Dywedwyd wrthym hefyd bod y practis wedi holi’n ddiweddar ynghylch opsiynau yn ymwneud ag adolygiad cymheiriaid allanol[6] gyda Deoniaeth Cymru, i helpu i gefnogi'r staff i ddatblygu gwell ymarfer.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Cedwid cofnodion y cleifion ar ffurf electronig, a gwelsom brosesau addas ar waith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel.

Nid oedd gan y practis broses gadarn ar waith i olrhain atgyfeiriadau cleifion brys at arbenigwyr eraill. Roedd y practis yn cydnabod hyn, ac ar ddiwrnod yr arolygiad gwnaethant ddiweddaru eu gweithdrefn i sicrhau bod atgyfeiriadau cleifion brys yn gallu cael eu holrhain yn briodol.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

---

[6]Mae adolygu gan gymheiriaid yn un o’r ‘safonau aur’ yn y maes gwyddonol, sef proses sy’n caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol (“cymheiriaid”) werthuso ansawdd gwaith gweithwyr proffesiynol eraill. Gwneir hyn gyda’r nod o sicrhau bod eu hymarfer yn drylwyr, ac yn manteisio ar ymchwil flaenorol gyda’r bwriad o ddarparu’r gofal a thriniaethau gorau posibl.

Gwelsom fodd bynnag nad oedd llofnodion cleifion bob amser yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd yn ystod yr ymweliad cyntaf, ac yn ystod ymweliadau dilynol nad oedd yr hanes meddygol bob amser yn cael ei lofnodi gan y claf a'r deintydd. Gwnaethom argymell bod y practis yn rhoi proses briodol ar waith er mwyn sicrhau bod y claf a'r deintydd ill dau yn diweddaru ac yn adolygu hanesion meddygol cleifion yn ystod pob ymweliad, a bod cofnodion yn cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintyddion. Cytunodd y practis i drefnu hynny. Er i ni ganfod bod gwiriadau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol wedi'u cynnal ar y cyfan, canfuwyd nad oedd hyn wedi'i gofnodi ar gyfer rhai cleifion. Cytunodd y practis i roi sylw i'r anghysondeb hwn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod ffurflenni hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf, a'u cydlofnodi gan y deintydd yn ystod pob ymweliad.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith gan y practis sy'n sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod ystod o bolisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, sydd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddi, a chyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Greenfield Dental Care yn eiddo i ddau brif deintydd ac maent yn cael eu cefnogi gan drydydd deintydd, rheolwr practis a thîm practis ehangach. Mae'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis, a gwelsom fod tîm cyfan y practis yn drefnus ac yn rhagweithiol o ran eu dull gweithredu. Cafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio gan bob un o aelodau tîm y practis.  Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth perchnogion y practis a rheolwr y practis ymateb ar unwaith ac arddangos parodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu awgrymiadau.

Dywedodd staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, eu bod teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan bob aelod o dîm y practis. Gwelsom fod y staff yn gwbl ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, a bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cynhyrchu a'u harddangos yn ardal y staff ar gyfer y rheini a allai fynychu. Gwelsom hefyd gofnodion cyfarfodydd rheoli a oedd yn

cael eu cynnal rhwng perchnogion y practis a rheolwr y practis, lle roedd trafodaethau mwy strategol ynghylch y practis yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod amrediad o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod yr holl bolisïau yn cael eu hadolygu a bod y dyddiad yn cael ei nodi arnynt, fel bod yr holl staff yn gwybod bod ganddynt fynediad at y polisïau diweddaraf.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi. Lle bo'n briodol, gwelsom dystysgrifau i ddangos tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd a 'argymhellwyd yn fawr[7]' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Sylwom fod y deintyddion a’r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer a bod yswiriant indemnio wedi ei drefnu.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a’u hunain rhag haint. Gwnaethom argymell y dylai'r practis geisio cael cyngor wrth iechyd galwedigaethol ynghylch un aelod o staff lle roedd ei lefel imiwnedd yn amrywio ac nad oedd wedi cael ei wirio yn ddiweddar. Gwnaethom argymell hefyd bod y practis yn cadw canlyniadau imiwneiddiadau staff i sicrhau bod cofnodion yn gyflawn. Cytunodd y practis i drefnu hynny.

Roedd y deintyddion yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC yn cael eu harddangos yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol

[7] https://www.gdc-uk.org/professionals/cpd/requirements

gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion sy'n gweithio yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gael cyngor gan iechyd galwedigaethol ynghylch lefelau imiwneiddio yn erbyn Hepatitis B ar gyfer un aelod o staff a chadw canlyniadau imiwneiddio ar gyfer yr holl aelodau staff.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu cyn lleied â phosibl ar gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 .Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwymp). Er nad yw'n angenrheidiol ei gynnwys yn y pecyn argyfwng, gwnaethom ganfod fodd bynnag fod un darn o offer, sef y canwla, yn cynnwys dyddiad a oedd wedi dod i ben. | Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai'r practis yn gallu ymateb yn briodol yn ystod argyfwng claf, a allai roi'r cleifion mewn perygl. | Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis a pherchennog y practis at hyn, ar ddiwrnod yr arolygiad. | Cafodd y canwla a oedd wedi mynd heibio ei ddyddiad dod i ben ei dynnu allan o'r pecyn argyfwng ar ddiwrnod yr arolygiad a rhoddwyd un newydd yn ei le ar unwaith. |

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Greenfield Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 16 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Greenfield Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 16 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i’w gwella yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau mwy rheolaidd yn cael eu cwblhau ar y cyffuriau a'r offer brys yn unol â chanllawiau’r Cyngor Dadebru (DU) | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Gwnaed llyfr cofnodion newydd ar ddiwrnod yr arolygiad. Rhoddwyd gwiriadau wythnosol ar waith, a diweddarwyd y polisi | Tracey Collier | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisi ar gyfer diogelu oedolion i gynnwys manylion priodol ar gyfer tîm diogelu'r cyngor lleol. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl | Cafwyd y wybodaeth, a diweddarwyd y polisi i gynnwys y rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost a manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer ardal Bro Morgannwg a Chaerdydd | Tracey Collier | Cwblhawyd |
| Dylai'r practis sicrhau bod y ffurflenni hanes meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd yn ystod pob ymweliad. | 3.5 Cadw cofnodion | Cafodd y Polisi Cofnodi Hanes Meddygol ei ddiweddaru, a chafodd ffurflenni hanes meddygol newydd eu dylunio a'u hanfon at yr argraffwyr. Bydd ffurflenni newydd yn cael eu llofnodi gan y cleifion a'u cydlofnodi gan y deintydd yn ystod pob apwyntiad. | Tracey Collier | Pedair wythnos |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r practis gael cyngor gan iechyd galwedigaethol ynghylch lefelau imiwneiddio yn erbyn Hepatitis B ar gyfer un aelod o staff a chadw canlyniadau imiwneiddio ar gyfer yr holl aelodau staff. | 7.1 Y gweithlu | Cysylltwyd ag Iechyd Galwedigaethol, ac mae'r aelod o staff dan sylw wedi trefnu prawf gwaed i weld a oes angen pigiad atgyfnerthu. | Tracey Collier | Pedair wythnos yn ddibynnol ar argaeledd pigiad atgyfnerthu yn genedlaethol |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):TRACEY COLLIER**

**Swydd: RHEOLWR Y PRACTIS**

**Dyddiad: 2 Tachwedd 2017**